

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Hysbysiad Cosb Benodedig ar gyfer
Peidio â Mynychu'r Ysgol**

Cod Ymddygiad

Medi 2023



Yn dilyn cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig trwy'r wlad am beidio â mynychu'r ysgol gan Lywodraeth Cymru yn 2013, trwy gyfrwng Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013, a ddaeth i rym yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) ym mis Ionawr 2015, dyma'r Cod Ymddygiad diwygiedig yn dilyn adolygiad blynyddol o'r cynllun.

1. Sail a rhesymeg gyfreithiol

Rhaid i ddisgyblion fynd i'r ysgol a darpariaethau amgen yn rheolaidd ac yn brydlon yn ôl y gyfraith. Mae hyn hefyd yn hanfodol fel bydd modd iddyn nhw fanteisio ar y cyfleoedd addysg sydd ar gael iddyn nhw i'r eithaf. Mae prydlondeb a phresenoldeb rheolaidd yn hanfodol er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn yn ystod tymor yr ysgol. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn lleihau'r cyfleoedd iddyn nhw gymryd rhan mewn gweithgareddau triwantio a gweithgareddau gwrthgymdeithasol cysylltiedig.

Yn ôl y gyfraith, mae'n drosedd os bydd rhiant/cynhaliwr (gofalwr) yn methu â sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol/darpariaeth amgen ac nad yw'r absenoldeb wedi'i awdurdodi gan yr ysgol.

Yng Nghymru, mae deddfwriaeth o'r enw Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 wedi rhoi grym i awdurdodau lleol i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig (FPNs yn Saesneg) i rieni/cynhalwyr a phobl ifanc sy'n absennol o'r ysgol, unedau atgyfeirio disgyblion a darpariaeth amgen heb awdurdod/caniatâd. Yn RhCT, mae'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb llawn am weithredu'r cynllun, gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar gais penaethiaid ysgolion, eu dirprwyon wedi'u henwi, neu'r Heddlu, i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn rhan o'i ddyletswyddau statudol.

Mae hysbysiad cosb benodedig yn wahoddiad i riant/cynhaliwr i osgoi cael ei erlyn trwy dalu'r gosb ariannol o hyd at £120 a allai gael ei gyflwyno i riant/cynhaliwr oherwydd nad yw ei blentyn yn mynychu'r ysgol/darpariaeth amgen.

Mae'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym mewn perthynas â gweithredu hysbysiadau cosb benodedig wedi'i nodi yn yr adrannau canlynol:

- Adrannau 444A a 444B o Ddeddf Addysg 1996;
- Deddf Addysg ac Adolygiadau 2006;
- Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013;
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011;
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Hawl i Addysg)

Caiff hysbysiadau cosb benodedig eu cyflwyno mewn amgylchiadau sy'n seiliedig ar feini prawf trothwy clir a fydd yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn deg ar draws RhCT, ac mae rhaid i'r sawl sydd â'r awdurdod i ofyn am gyflwyno hysbysiad cosb, e.e. yr heddlu, penaethiaid neu'u dirprwyon, ddilyn y canllawiau sydd wedi'u nodi yn y ddogfen côd ymddygiad yma.

Dyw'r ddeddfwriaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig am beidio â mynychu'r ysgol ddim i'w defnyddio fel ymateb i absenoldebau o'r ysgol sydd wedi ymwreiddio, nac i newid gwaith traddodiadol gwaith achos y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles gyda theuluoedd. Mae Hysbysiadau Cosb Benodedig i'w defnyddio fel arfau i weithredu'n gyflym. Maen nhw'n cael eu hystyried yn arfau mwy effeithiol pan gân nhw eu cyflwyno ar gyfer amgylchiadau penodol, a dyna'r rheswm am y meini prawf sydd wedi'u nodi yn adran 4.

Er mwyn gofalu bod rhieni a chynhalwyr yn llwyr effro i'r ddeddfwriaeth ynghylch hysbysiadau cosb benodedig, y disgwyl yw i'r ysgolion i gyd, gyda chymorth eu Cyrff Llywodraethu, nodi gwybodaeth ynglŷn â hysbysiadau cosb yn glir yn eu Polisi Mynychu'r Ysgol, yn ogystal â nodi'n glir y gweithdrefnau beunyddiol ar gyfer mynd ar drywydd absenoldeb disgybl a sut mae pennaeth yn penderfynu p'un ai fod yr absenoldeb yn gyfiawn neu beidio. Dim ond penaethiaid sy'n cael dod i benderfyniadau ynghylch awdurdodi absenoldeb a'r côd dilynol i'w ddefnyddio (Codau Presenoldeb Cymru Gyfan 2010) i gategoreiddio'r rheswm dros yr absenoldeb. Noda'r Rheoliadau Cofrestru fod yr amddiffyniadau statudol (sy'n dderbyniol dan y gyfraith) am absenoldeb o'r ysgol fel a ganlyn:

- Mae'r absenoldeb wedi'i awdurdodi;
- Ataliwyd y disgybl rhag dod i'r ysgol oherwydd salwch neu achos arall nad oedd modd ei osgoi;
- Mae'r absenoldeb oherwydd gwyliau crefyddol;
- Methodd yr awdurdod lleol â gwneud trefniadau teithio addas i hwyluso presenoldeb (Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008)
- Mae'r plentyn wedi'i ddiarddel.

2. Goblygiadau cyfreithiol

Mae hysbysiad cosb benodedig yn £60 os caiff ei dalu o fewn 28 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad, ac mae'n codi i £120 os caiff ei dalu ar ôl 28 diwrnod ond o fewn 42 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad. Os na chaiff yr hysbysiad cosb benodedig ei dalu'n llawn erbyn diwedd y 42 diwrnod, bydd rhaid i'r awdurdod lleol naill ai erlyn y rhieni/cynhalwyr am y drosedd neu dynnu'r hysbysiad yn ôl. Bydd camau erlyn (adran 444(1) o Ddeddf Addysg 1996) am y trosedd o fethu â sicrhau presenoldeb yn yr ysgol ac am beidio â thalu'r hysbysiad cosb.

Bydd hawl tynnu'r hysbysiad cosb yn ei ôl mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn fel sydd wedi'i nodi yn y ddogfen côd ymddygiad yma.

3. Pwy sy'n cael cyflwyno hysbysiad cosb benodedig?

Bydd y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn gyfrifol am reoli'r broses hysbysiad cosb benodedig. Bydd y gwasanaeth yn gweithio gydag ysgolion a swyddogion lleol yr Heddlu i osgoi torri ar draws unrhyw gamau ymyrraeth sy'n cael eu cymryd.

4. Amgylchiadau ar gyfer cyflwyno hysbysiad cosb benodedig

Caiff hysbysiad cosb benodedig ei gyflwyno pan fydd achosion o absenoldeb heb eu hawdurdodi. Dim ond un hysbysiad gaiff rhiant mewn perthynas ag absenoldeb yn ystod un flwyddyn academaidd, ond os bydd mwy nag un disgybl mewn teulu sydd ddim yn mynychu'r ysgol, efallai caiff hysbysiadau'u cyflwyno ar gyfer mwy nag un plentyn yn y teulu hwnnw. Y flwyddyn academaidd y mae'r ysgol wedi cyflwyno'r cais i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles ynddi, a phryd y digwyddodd yr absenoldeb cychwynnol, sy'n berthnasol o ran cyhoeddi'r hysbysiad, ac nid y flwyddyn academaidd y gellir prosesu a chyhoeddi'r hysbysiad ynddi.

Fydd dim cyfyngiadau ar y nifer o weithiau y caiff, o bosibl, riant rybudd ffurfiol a phenderfyniad y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles fydd p'un ai gyflwyno hysbysiad i un rhiant/cynhaliwr neu'r ddau.

Rhaid i hysbysiadau cosb benodedig gael eu hystyried yn yr amgylchiadau canlynol:

- Lle mae lleiafswm o 10 sesiwn heb awdurdod (5 diwrnod ysgol) yn y tymor presennol (nid oes angen i'r rhain fod yn olynol). Gallai hyn gynnwys disgyblion sy'n cyrraedd yn barhaus ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben; (Argymhellir cadw cofrestrau ar agor am dri deg munud);
- Lle bo rhiant/cynhaliwr wedi methu â gweithio gyda'r ysgol a/neu'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles i geisio gwella presenoldeb, ond nad oes camau wedi'u cymryd i gyflwyno cosb yn y llys;
- Cyfnod o absenoldeb oherwydd gwyliau na gafodd ei awdurdodi gan yr ysgol;
- Mae disgybl wedi dod i sylw'r heddlu yn rheolaidd yn ystod oriau ysgol ac mae'n absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol.

Fydd hysbysiadau cosb benodedig ddim yn cael eu defnyddio fel cam gweithredu syth, e.e. ar gyfer disgyblion sy'n cael eu canfod yn triwanta yn ystod ymgyrchoedd corlannu'r triwantiaid **nac ychwaith os ydy camau cyfreithiol wedi'u cychwyn yn erbyn y rhiant/cynhaliwr o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996, neu fod camau'n cael eu hystyried adeg y cais yn rhan o achos parhaus.**

5. Gweithdrefn ar gyfer cyflwyno hysbysiad cosb benodol

Bydd ceisiadau am gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig gan y sawl sy'n gwneud y cais yn unol â'i bolisi ei hun ynglŷn â rheoli absenoldebau heb eu hawdurdodi. Dylai ceisiadau am gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig gael eu hanfon i'r Awdurdod Lleol ar gyfer archwilio'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi i'r ysgol/heddlu. Bydd y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn gweithredu ceisiadau priodol cyn pen 19 diwrnod gwaith o'r cais yn dod i law oddi wrth yr ysgol, lle mae'r holl wybodaeth berthnasol wedi'i darparu. Mae modd i ysgolion, yr Heddlu ac awdurdodau cyfagos wneud ceisiadau. Unwaith bod modd sicrhau bod yr holl feini prawf wedi'u bodloni, bydd y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn:

- anfon rhybudd ysgrifenedig ffurfiol i'r rhiant/cynhaliwr, gan roi gwybod iddyn nhw efallai y bydden nhw'n derbyn hysbysiad cosb benodedig, a'r rheswm am hynny;
- Pennu cyfnod o 15 niwrnod i'r rhiant/cynhaliwr ymateb gan ofalu bod gan y plentyn bresenoldeb llawn. Yn ystod y cyfnod 15 niwrnod yma, rhaid i'r plentyn/person ifanc beidio â bod yn absennol o'r ysgol heb ganiatâd;
- Os bu absenoldebau heb eu hawdurdodi erbyn diwedd y 15 niwrnod, bydd hysbysiad cosb benodedig yn cael ei gyflwyno.

NODWCH: pan fydd ysgol yn gofyn am gyflwyno hysbysiad cosb benodedig oherwydd cyfnod o absenoldeb heb ei awdurdodi oherwydd gwyliau, fydd y llythyr rhybuddio ffurfiol a'r cyfnod gwella o 15 niwrnod DDIM yn berthnasol, a bydd hysbysiad cosb benodedig yn cael ei gyflwyno ar unwaith.

6. Talu Hysbysiad Cosb Benodedig

Bydd gwybodaeth am y trefniadau talu ar yr hysbysiad cosb benodedig.

Unwaith caiff yr hysbysiad am y cyfnod dan sylw ei dalu, bydd atebolrwydd y rhiant/cynhaliwr wedi'i gyflawni, ac felly fydd dim hawl ei erlyn dan bwerau gorfodi eraill (adran 444 (1)) am yr un cyfnod ag sydd wedi'i gynnwys yn yr hysbysiad cosb benodedig.

Does dim hawl ad-dalu hysbysiadau cosb benodedig adeg gwneud apêl.

Yn amodol ar gydymffurfiaeth ag Adran 21 y Rheoliadau, bydd Cyngor RhCT yn cadw gwerth y referniw o'r hysbysiadau cosb benodedig er mwyn talu am y costau gorfodi sy'n deillio o'r mater, costau casglu neu, mewn achosion lle na thelir yr hysbysiad, y costau o dalu am erlyniad.

7. Peidio â thalu hysbysiad cosb benodedig

Efallai bydd methu â thalu hysbysiad cosb benodedig **yn sbarduno erlyniad** drwy adran 444(1) Deddf Addysg 1996.

8. Tynnu hysbysiad cosb benodedig yn ei ôl

Unwaith iddo gael ei gyflwyno, does dim modd tynnu hysbysiad cosb benodedig yn ei ôl oni bai bod modd profi'r canlynol:

- Bod yr hysbysiad wedi'i gyflwyno i'r person anghywir/cyfeiriad anghywir;
- Chydymffurfiodd yr hysbysiad â'r Cod Ymarfer hwn;
- Dengys tystiolaeth na ddylai'r hysbysiad fod wedi'i gyflwyno yn y lle cyntaf, e.e. tystiolaeth feddygol (mae gan rieni/cynhalwyr gyfnod o 15 diwrnod i gyflwyno'r dystiolaeth hon);
- Mae'r amgylchiadau yn cyfiawnhau tynnu'r hysbysiad yn ôl.

Caiff y rhiant/cynhaliwr wybod bod yr hysbysiad wedi'i dynnu'n ôl. Fydd dim rhagor o gamau'n cael eu cymryd yn erbyn y rhiant/cynhaliwr am y trosedd y mae'r hysbysiad

cosb benodedig a dynnwyd yn ei ôl yn ymwneud ag ef nac am drosedd dan adran 444 (1 ac 1A) Deddf Addysg 1996 a ddeilliodd o'r un amgylchiadau.

Does dim hawl statudol i apelio yn erbyn hysbysiad cosb benodedig. Os yw rhiant/cynhalwr eisiau herio hysbysiad, dylai gyflwyno cwyn i'r Gwasanaeth Lles Addysg a/neu wynebu camau erlyn yn Llys yr Ynadon dan adran 444(1) Deddf Addysg 1996.

9. Polisi a chyhoeddusrwydd

Er mwyn gofalu bod rhieni a chynhalwyr yn llwyr effro i'r ddeddfwriaeth ynghylch hysbysiadau cosb, mae'n ofynnol i'r ysgolion/unedau atgyfeirio disgyblion i gyd, gyda chymorth eu cyrff llywodraethu/byrddau rheoli, nodi gwybodaeth ynglŷn â hysbysiad cosb benodedig yn glir yn eu polisiau presenoldeb.

10. Côt Ymddygiad - adolygu a threfnau adrodd

Bydd y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn monitro'r defnydd o hysbysiadau cosb benodedig fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd. Bydd data meintiol ar gael i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu Gydol Oes, Uwch Reolwyr a Llywodraeth Cymru ar gais

Caiff y Cod Ymarfer ei adolygu bob blwyddyn a'i ddiwygio'n ôl yr angen yn dibynnu ar ganlyniad ei lwyddiant dros y flwyddyn flaenorol.

11. Sut i gael rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am weithredu'r cod ymarfer hwn a hysbysiadau cosb benodedig ar gael gan:

Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles,
Tŷ Trevithick,
Abercynon
CF45 4UQ
01443 744298
presenoldeballes@rctcbc.gov.uk